

# Dyfodol pob un ohonom ni

Cynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru  
Dydd Mawrth 13 a Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018



## Gweithdai • Dydd Mawrth



### Dyfodol cefnogaeth

Fe fydd y gweithdy yma yn trafod ffyrdd o gefnogi pobl er mwyn iddyn nhw allu byw y bywyd maen nhw ei eisiau. Fe fydd yn edrych ar rôl a dyfodol gwasanaethau cefnogi a'r dewisiadau eraill sydd ar gael i bobl sydd ddim eisiau dibynnu ar wasanaethau traddodiadol.

Hwylusir gan Bob Rhodes, Bywydau Drwy Ffrindiau & Rick Wilson, Consortiwm Bywydau yn y Gymuned

### Mwy Heini a Gwell

Ymunwch yn y sesiwn hwyliog a rhyngweithiol yma i ddysgu am fwyta'n iach, profi gwahanol ddulliau ymarfer a gwneud a blasu rhai ryseitiau iach cytbwys a mwynhau gemau llawn hwyl mewn amgylchedd gyfeillgar.

Hwylusir gan Andrew Walsh o Fitability Wales..

### Codi dyheadau a disgwyliadau

Ymunwch â ni yn y gweithdy rhyngweithiol yma i edrych ar ffyrdd y gallwn weithio i godi dyheadau a disgwyliadau i bobl gydag anabledd dysgu. Sut rydyn ni'n gallu dadgloi posibiliadau i bob unigolyn? Sut mae'r prosiect cyflogadwyedd Engage to Change yn cefnogi pobl ifanc i adeiladu eu dyfodol?

Hwylusir gan Jenna Trakins a Llysgenhadon Prosiect o Brosiect Engage to Change Anabledd Dysgu

### Hyrwyddo annibyniaeth, urddas a rheolaeth gyda thechnoleg prif ffrwd

Gweld sut y mae technoleg prif ffrwd fforddiadwy yn gallu cael ei ddefnyddio i wella bywydau pobl a herio agweddau cyfredol tuag at dechnoleg gyda chymorth mewn byw gyda chefnogaeth.

Hwylusir gan Kieran Vass a Nick French o Innovate Trust

### Gwell gyda'n Gilydd

Fe fyddwn yn edrych ar ffyrdd arloesol o gefnogi rhieni gydag anabledd dysgu i ddod yn rhieni effeithiol, edrych ar sut y mae cefnogaeth yn gallu datblygu dros amser a thrafod ffyrdd o herio'r dybiaeth bod plant sydd gyda rhiant ag anabledd yn well eu byd mewn gofal.

Hwylusir gan Babs Lewis o Shared Lives Plus, Samantha Williams o Rwydwaith Gweithio gyda'n Gilydd gyda Rhieni Anabledd Dysgu Cymru a Catherine Hughes

## Edrych yn wahanol ar bontio

Fe fydd aelodau'r prosiect adeiladu pontydd yn siarad am y prosiect a sut y mae pobl ifanc gydag anabledd dysgu ar draws Sir Fynwyy yn cael eu cefnogi drwy gyfnodau pontio yn eu bywydau. Mae'r prosiect yn defnyddio ffyrdd gwahanol a hwyliog i ymgysylltu gyda phobl ifanc i adeiladu hyder a chyfeillgarwch fel bod pobl ifanc yn gallu byw eu bywydau i'w llawn botensial. Ein nod ydy rhoi syniadau i chi i'ch ysbrydoli i wneud pethau'n wahanol.

Hwylusir gan Beccy Williams o'r prosiect Pontydd (Sir Fynwyy)

## Archwilio'r Dyfodol

Fe fydd y gweithdy cyfranogol yma yn edrych ar y cyfleoedd a'r materion mawr sydd yn wynebu Cymru ac yn eich annog i rannu eich meddyliau a'ch profiadau i ddarganfod atebion cynaliadwy ac 'enillion cyflym'. Fe fyddwch yn dysgu am y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn deall sut i ddefnyddio rhai offer syml i wneud y mwyaf o'ch cyfraniad mewn bywyd a gwaith bob dydd

Hwylusir gan Bethan Smith o Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

# Dyfodol pob un ohonom ni

Cynhadledd Flynyddol Anabledd Dysgu Cymru  
Dydd Mawrth 13 a Dydd Mercher 14 Tachwedd 2018



## Gweithdai • Dydd Mercher



### Annog Addasiadau Rhesymol mewn Ysbytai

Fe fydd dwy Nyrs Cydlynu Anabledd Dysgu yn trafod addasiadau rhesymol a beth ddylech chi/pobl gydag anabledd dysgu ddisgwyl wrth fynd i'r ysbyty.

Hwylusir gan Joanne Edwards a Claire Jenkins, Nyrsus Cydlynu Anabledd Dysgu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg

### Gwneud i dechnoleg ffitio'r person

Cyfle I glywed sut mae Hft yn defnyddio technoleg wedi'i bersonoli i fyw'n fwy annibynnol ac yn ddiogel. Drwy ddetholiad o astudiaethau achos fideo fe fyddwn yn dangos beth mae pobl yn gallu ei gyflawni a phwysigrywdd cymryd ymagwedd wedi'i ganoli ar y person, gan ganolbwyntio ar gryfderau a galluoedd y person.

Hwylusir gan Emma Nichols o Hft

### Gweithio gyda ac nid ar gyfer

Mae'r gweithdy yma yn edrych ar brofiadau gwaith gyda chyflog pobl ifanc fel ymchwilwyr dan arweiniad cymheiriaid ar brosiect am unigrwydd cymdeithasol yng Ngwent. Fe fydd y gweithdy yn edrych ar rôl y cyflogwr cynhwysol gan ddefnyddio recriwtio ac arfer cyflogaeth cadarnhaol sydd yn arwain at gyfleoedd gwaith parhaol.

Hwylusir gan Vicky Butler a Greg Thomas o CARP Collaborations

### Newid agweddau

Yn y gweithdy yma fe fyddwn yn edrych ar brofiadau pobl gydag anabledd dysgu o wasanaethau y gellid eu ffurfio i herio'r stigma maen nhw'n ei wynebu. Fe fyddwn yn edrych ar sut y mae'n rhaid i newid agweddau a herio'r stigma sydd yn wynebu pobl gydag anableddau dysgu fod wrth galon y rhaglen Gwella Bywydau newydd yng Nghymru i ddatrys problemau hir dymor.

Hwylusir gan Hayden Rustage, gwirfoddolwr Ymddiriedolaeth Cenedlaethol gydag Awtistiaeth a Wayne Crocker o Mencap Cymru.

### Gwella bywydau

Dysgwch ragor am raglan Gwella Bywydau Llywodraeth Cymru a'i nod o wella bywyd i bobl gydag anabledd dysgu ym meysydd iechyd, trafndiaeth, tai, gofal cymdeithasol a sgiliau a chyflogaeth.

Hwylusir gan Claire Hough, Rheolwraig Rhaglen Gwella Bywydau gyda Llywodraeth Cymru

## Just do it!

Fe fydd 'Do It' Sir y Fflint yn dangos sut maen nhw'n adeiladu gwell dyfodol i bawb.

Dysgwch sut y gallwch ddefnyddio cynllunio Gweithredu Cyd-gynhyrchu i symud pethau yn eich cymuned. Dysgwch sut i roi cyfleoedd i bobl i wneud y pethau sydd yn bwysig iddyn nhw.

Hwylusir gan Mark John Williams o Do It Sir y Fflint.

## Cysylltu

Ymunwch gyda Chymunedau Digidol Cymru ar gyfer gweithdy hwyliog a rhyngweithiol i helpu i ysbrydoli ac annog pobl i fynd ar-lein. Fe fyddwn yn edrych ar offer digidol fel dull o roi cyfle i bawb ddefnyddio technoleg mewn ffordd gadarnhaol.

Hwylusir gan Laura Phillips o Cymunedau Digidol Cymru



Learning Disability Wales  
Anabledd Dysgu Cymru

[www.ldw.org.uk](http://www.ldw.org.uk)

029 20681160

[Harriett.johnson@ldw.org.uk](mailto:Harriett.johnson@ldw.org.uk)